

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mercher, 13eg Mawrth, 2024 at 3.00 pm

YN

BRESENNOL:

CYNYRCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:

Cynghorydd Sir Louise Brown (Yn y Gadair)
Cynghorydd Sir Paul Pavia
Cynghorydd Sir John Crook
Cynghorydd Sir Rachel Buckler

CYNYRCHIOLWYR FFYDD:

Sue Cave
Suzanne Gooding

CYNYRCHIOLWYR ATHRAWON:

Charlotte Rhodes

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Sharon Randall-Smith	Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Geraint Edwards	Cynghorydd Cyfreithiol
Hayley Jones	Curriculum Partner (SACs and RVE)

APOLOGIES:

Cynghorwyr Sir Martyn Groucutt and Angela Sandles

1. Welcome and Apologies

Croesawyd y Cynghorydd Sir John Crook i'w gyfarfod cyntaf. Mae'r Cynghorydd Crook yn cymryd lle'r Cynghorydd Sir Jill Bond sydd wedi ymddiswyddo.

2. Datganiadau o Fuddiant

Dim

3. I nodi cofnod y cyfarfodydd blaenorol:

Cadarnhawyd bod y cofnod yn gywir ar gyfer y cyfarfodydd canlynol:

- 12 Rhagfyr 2023
- 7 Chwefror 2024 (Arbennig)
- 26 Chwefror 2024 (Panel Recriwtio ACA)

4. Cymwysterau

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mercher, 13eg Mawrth, 2024 at 3.00 pm

Cwrs Exploring World Views

Croesawodd SAC Frances Lee, Rheolwr Datblygu Busnes, Agored Cymru a gyflwynodd drosolwg manwl o'r cwrs Exploring World Views achrededig sy'n galluogi disgyblion i ennill cymhwyster cyfatebol sy'n cwmpasu elfennau craidd y cwricwlwm statudol.

Gofynnodd Aelodau'r SAC gwestiynau am y pwyntiau a ganlyn:

- Sut mae cwricwlwm World Views wedi cael ei lunio? Ymgynghorwyd ag arbenigwyr o gonsortia eraill ar y cynnwys. Mwy o fanylion i'w darparu gan y Pennaeth Datblygu Cynnyrch.
- Dim ond amlinelliad o'r unedau a ddarparwyd ar y wefan ee dim ond Dyneiddiaeth a ddefnyddiwyd fel enghraifft ar gyfer Anghrefyddol er bod ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol eraill. Holwyd faint o hyblygrwydd sydd i gynnwys enghreifftiau eraill neu a yw'r unedau'n feysydd astudio penodol: Eglurwyd bod canllaw cymhwyster ar gyfer pob uned sy'n cynnwys manylion mwy penodol. Mae amserlen EQA gyda'r Tîm Ansawdd ac mae paneli rhanddeiliaid yn adolygu'r hyn sy'n ddigonol.
- A all ysgolion ddyfeisio eu cynnwys eu hunain: Canllaw yw'r meini prawf a gall yr ysgol gymhwyso eu dehongliad eu hunain.
- A oes arholiadau: Mae'r rhain yn gymwysterau galwedigaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae problem gyda meini prawf cyffredinol TGAU Cymwysterau Cymru sef nad yw'n cwmpasu'r gofynion statudol. Mae siom hefyd nad oes cwrs byr TGAU annibynnol. Bydd y cwricwlwm newydd yn cwmpasu Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill ac ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol fel y nodir ym Cyd-Faes Llafur Sir Fynwy: Mae unedau cymhwyster World Views yn galluogi ymarferwyr i edrych ar y cyd-faes llafur a'r cwricwlwm newydd ac ee dewis ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol wrth gynllunio unedau. Nid yw'r unedau yn gyfarwyddol er mwyn galluogi ysgolion i benderfynu ar y ffordd orau o ddylunio unedau yn unol ag anghenion a diddordebau dysgwyr. Mae Agored Cymru yn mesur a yw'r dystiolaeth yn ddigonol i gyrraedd y safon angenrheidiol ar gyfer y wob. Awgrymir bod ysgolion sy'n cofrestru ar gyfer y TGAU llawn yn ychwanegu pob maint a lefel at eu fframwaith er mwyn sicrhau y gall disgyblion sy'n cael trafferth hawlio cymhwyster lefel is.
- Sut byddwn yn gwybod bod ysgolion yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol: Eglurodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ei bod yn anodd monitro darpariaeth statudol mewn ysgolion. Nid yw'r etifeddiaeth a'r cwricwlwm newydd bellach yn cael eu crybwyll yn uniongyrchol yn adroddiadau Estyn a dim ond un Cynghorydd AG sy'n gwasanaethu ysgolion mewn pum awdurdod. Credir bod ysgolion yn gwneud eu gorau i gyflawni darpariaeth statudol ond dylid cydnabod y gall y pwnc gael ei gyflwyno gan ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr. I gefnogi ysgolion gyda'r ddarpariaeth, mae dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio i sicrhau mynediad at adnoddau a hyfforddiant i uwchsgilio athrawon.

Diolchwyd i Frances Lee am ei phresenoldeb.

Canlyniadau Arholiadau AG:

Roedd Sharon Randall-Smith wedi casglu gwybodaeth o 2019 a 2023. Crybwyllwyd effaith Covid i egluro'r anhawster gyda chymariaethau.

TGAU 2019: Eisteddodd a chyflawnodd 52.8% o fyfyrwyr TGAU (cyrsiau llawn a byr). Roedd y garfan yn 799 o fyfyrwyr.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mercher, 13eg Mawrth, 2024 at 3.00 pm

Safon Uwch /UG 2019: Safodd 11.6% (42 disgybl) Safon Uwch a 13% (47 o fyfyrwyr) Safon UG.

TGAU 2023: Roedd y garfan yn 772. Safodd a chyrrhaeddodd 46.9% TGAU (cwrs llawn a byr).

Y gwahaniaeth mewn canlyniadau A*-C rhwng 2019 a 2023 yw 3%.

Nodwyd nad oedd Ysgol Cas-gwent yn gallu cyflogi ymarferydd Astudiaethau Crefyddol arbenigol ac felly nid oeddent yn cynnig cwrs TGAU na Safon Uwch. Effeithiodd hyn ar y ffigur cyffredinol ar gyfer yr awdurdod.

Safon Uwch/UG 2023 - Safodd 5% o fyfyrwyr Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol sy'n dangos gostyngiad sylweddol o 2019 ac mae'n llai na hanner y garfan gyfan. Bydd hyn yn cael ei godi gydag ysgolion yng nghyfarfodydd yr haf i edrych pa gymorth a chefnogaeth sydd ei angen. Bydd diweddariad i'r SAC yn cael ei ddarparu maes o law.

Eglurwyd bod y gostyngiad mewn Safon Uwch ar draws yr awdurdod, ac nid Cas-gwent yn unig.

Eglurodd y Cynghorydd RVE fod gostyngiad yn y niferoedd sy'n gwneud cais am hyfforddiant ymarfer dysgu cychwynnol i ddod yn athrawon RVE. Cadarnhawyd bod y nifer sy'n cofrestru ar gyfer TGAU yn ddisymud ledled Cymru a bod lefelau cyrsiau byr wedi gostwng. Bydd hyn yn cael effaith ar Safon Uwch/UG.

Eglurwyd bod y nifer sy'n dilyn cyrsiau byr draean yn uwch nag yn 2019 a bydd hyn, gobeithio, yn bwydo i mewn i welliant yn y dyfodol.

Bydd y wybodaeth uchod yn cael ei hadrodd yn flynyddol i'r SAC at ddibenion monitro.

Gofynnodd Aelodau'r SAC gwestiynau am y pwyntiau a ganlyn:

- Mynegwyd peth pryder ynghylch ymgynghoriad Cymwysterau Cymru lle'r oedd 61% eisiau gweld cwrs byr Astudiaethau Crefyddol annibynnol yn cael ei ddarparu. Gan na ystyriwyd y farn hon, roedd pryder ynghylch y goblygiadau i gyrsiau eraill.
- Holwyd a ellid cyflwyno sylwadau i gefnogi cynnydd mewn hyfforddiant ar gyfer athrawon arbenigol.
- Mae'n bwysig bod y pwnc yn cael ei addysgu'n iawn i gynifer o fyfyrwyr â phosibl.
- Teimlai'r Cynghorydd AG fod ysgolion cynradd yn rhoi mwy o amser cwricwlwm i'r pwnc, tra bod ysgolion uwchradd yn ei chael hi'n anoddach oherwydd maint y newid, materion yn ymwneud ag amserlen a diffyg athrawon arbenigol. Dywedwyd y gall ysgolion sydd ag athrawon arbenigol bartneru ysgolion sy'n cael trafferth gyda'r ddarpariaeth a gellir trefnu hyn trwy'r EAS ar gyfer unrhyw ysgol.
- Y gobaith yw, wrth i'r cwricwlwm newydd setlo, y bydd mwy o fyfyrwyr eisiau dilyn y pwnc.

5. Trafodaeth ar Aelodaeth Gyfredol

Atgoffwyd SAC bod yn rhaid i geisiadau am leoedd gwag ffydd a chred gael eu cymeradwyo gan y corff cynrychioliadol. Mae'r Cyngor Eglwysi Rhyddion yn cynrychioli ystod o ffydd a byddai ceisiadau angen cefnogaeth y Cyngor Eglwysi Rhyddion neu gorff llywodraethu eglwysig. Mae argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol (NRPC) yn cynrychioli gwahanol fathau o NRPCs, nid un sefydliad unigol. Byddai angen cymeradwyaeth y corff cynrychioliadol ar yr enwebai ond byddai'n cynrychioli'r NRPC yn gyffredinol.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mercher, 13eg Mawrth, 2024 at 3.00 pm

Mae gohebiaeth wedi'i dderbyn gan Humanism UK yn gofyn am gynrychiolaeth benodol ar gyfer Dyneiddiaeth ar SAC. Mater i'r Cyngor Llawn benderfynu arno yw dyrannu rhwng y gwahanol grwpiau pan fydd yn adolygu'r Cyfansoddiad. Efallai y bydd SAC am ffurfio barn ar y mater hwn. Cyfeiriodd Aelod at y cyfrifiad diweddar a'r angen i fod yn gynrychioliadol o drigolion grwpiau Ffydd Sir Fynwy/NRPC. Bydd y mater hwn yn cael ei ailystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Eglurodd yr Is-Gadeirydd y bydd e-bost yn cael ei anfon at gynghorau tref a chymuned er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd yn lleol i swyddi gweigion ffydd a chred (gan gynnwys argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol) gan sefydliadau yn eu hardal. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn ailedrych ar y pwnc hwn pan fydd ymatebion wedi dod i law.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r aelodau presennol i ofyn a oeddent yn dymuno parhau fel aelodau o'r SAC newydd. Os na, bydd modd i'w sefydliad gyflwyno enwebiad newydd.

6. Diweddariad Dysgu Proffesiynol

Diweddarodd y Cynghorydd RVE y SAC fel a ganlyn:

- Mae'r GCA wedi bod yn cynnal ymweliadau dylunio cwricwlwm yn dilyn y rhaglen dylunio cwricwlwm. Mae Ysgol Y Ffin wedi creu sawl trosolwg da o ran cyflwyno cwricwlwm RVE eang a chytbwys. Bydd y Cynghorydd RVE nawr yn eistedd mewn rhai gwersi ac yn rhoi adborth i SAC.
- Cydweithio â Chonsortium Canolbarth y De i greu cyfres o weminarau lle gall ymarferwyr ddysgu am wahanol grefyddau'r byd a NRPCs. Mae'r gweminarau yn addas ar gyfer uwchsgilio'r holl staff ym mhob cyfnod. Mae'r gweminarau yn cynnwys mynediad i wybodaeth ac adnoddau eraill ar gyfer dysgu pellach.
- Mae sgysiau addoli ar y cyd yn parhau bob tymor gydag ysgolion yn rhannu dulliau a syniadau ar gyfer addoli ar y cyd. Er ei fod y tu allan i'r cwricwlwm RVE, mae'n rhan bwysig o fywyd ysgol. Anogwyd yr aelodau i annog ysgolion i rannu eu dulliau.
- Mae hyfforddiant gwrth-hiliaeth ar 18fed o Ebrill 2024 a bydd y ddolen yn cael ei rhannu ar gyfer aelodau sydd â diddordeb. Y pwrpas yw uwchsgilio staff.
- Blaengynllunio: Mae cynllunio Athroniaeth i Blant (PfC) yn parhau. Treialodd Ysgol Uwchradd St Joseph y pwnc Rhinweddau a bydd hyn yn cael ei gyflwyno ar draws y consortiwm a bydd mwy o hyfforddiant yn cael ei ddarparu. Mae ysgolion eraill wedi bod yn dilyn hyfforddiant Godly Play (fersiwn o) PfC yn seiliedig ar naratif i annog ee Cwestiynau "tybed". Bydd mwy o waith yn dilyn.
- Mae gweithgor yn cael ei sefydlu i ddatblygu adnoddau i lenwi'r bwlch o ran TGAU, y TGAU di-arholiad/gorfodol i ddiwallu anghenion ysgolion.
- SAC Ieuencid(RVE): Edrych i sefydlu SAC(RVE) Ieuencid a cheisio dod o hyd i fyfyrwyr addas o Ysgolion Sir Fynwy i ymuno â SAC(RVE) consortiwm cyfan o fis Medi. Dylid hefyd ystyried cynnwys llais y disgybl o fewn cyfarfodydd SAC. Croesewir safbwyntiau a syniadau. Awgrymodd Aelod y gellid cysylltu ag Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, hefyd Ysgol Gynradd Gwndy. Byddai croeso i Aelodau SAC gymryd rhan mewn prosiectau, yn amodol ar brotocolau diogelu.

7. Busnes CCYSAGauC:

1. Nodwyd Cofnodion Drafft cyfarfod yr Hydref a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2023.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mercher, 13eg Mawrth, 2024 at 3.00 pm

2. Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC: Enwebiadau ar gyfer aelodau newydd
3. CCYSAGauC Cyhoeddodd y Cynghorydd RVE y bydd Sir Fynwy yn cynnal cyfarfod CCYSAGauC yr Hydref a gofynnodd a fyddai'r cyfarfod yn un o bell neu hybrid ar Zoom, lluniaeth, cyfieithu ac a oes unrhyw syniadau i'w harddangos.

8. Unrhyw Fater Arall

Awgrymwyd y gallai SAC gael diweddariad gan yr Eglwys yng Nghymru a'r ysgol Gatholig Rufeinig ar y cwricwlwm a'r maes llafur RVE, a'r cymwysterau TGAU. Y Cynghorydd RVE i roi cyngor.

Yn ei gyfarfod nesaf, bydd JAG yn ystyried penodi saith cynrychiolydd athrawon i gynrychioli'r undebau llafur. Bydd cynrychiolwyr presennol Athrawon yn parhau hyd nes y bydd JAG wedi penderfynu. Bydd pob un a gymeradwyir gan y Cyd-Grŵp yn parhau fel aelodau dros dro o'r ACA hyd nes y cânt eu cadarnhau gan y Cyngor Llawn.

9. Dyddiadau cyfarfodydd 2024/25

Y cyfarfod diwedd yn 4.32 pm